With the support of the Erasmus+ Programme of the European Union

# Cystadleuaeth yn Chwilio am Ddatrysiadau Cynaliadwy ar gyfer Dyfodol Twristiaeth yng Nghymru

**DYDDIAD RHYDDHAU: Dydd Mercher Mawrth 17eg , 2021**

Mae'r prosiect Next Tourism Generation (NTG) sydd wedi'i leoli ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, mewn cydweithrediad â Tourism Society Cymru a PLANED, yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr twristiaeth a lletygarwch, pobl ifanc 16-25 oed sy'n gweithio yn y sector twristiaeth gan gynnwys y rhai sydd ar ffyrlo ac sydd wedi colli'u swydd yn ystod pandemig Covid, i ennill £250.

Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno eu syniadau gorau ar "***Sut olwg ddylai fod ar ddyfodol twristiaeth a lletygarwch yng Nghymru, a nodi pa sgiliau a gwybodaeth sy'n ofynnol i ddarparu datblygiad twristiaeth gynaliadwy yng Nghymru.''***

Mae pedwar categori dyfarnu, a dylai pob ymgeisydd gyfeirio at y categori yn eu cynnig digidol a'u crynodeb 250 gair. Rhaid i bob ymgeisydd ddarparu cynnig mewn fformat digidol: fideo, cyflwyniad PowerPoint, gwefan, ap neu drwy fformat digidol arall, yn ogystal â chwblhau crynodeb 250 gair â gwybodaeth atodol yn Gymraeg neu Saesneg.

**Y 4 categori gwobr yw:**

1. Diwydiant twristiaeth a seilwaith a noddir gan Tourism Society Cymru
2. Offer a thechnoleg ddigidol, noddir gan M-SParc
3. Yr amgylchedd ac ecoleg a noddir gan Bluestone
4. Noddwr cymunedau lleol i'w gadarnhau

Bydd enillwyr ar gyfer y pedwar categori noddedig ac enillydd ar gyfer y cyfan. Mae beirniaid y gystadleuaeth yn arbenigwyr blaenllaw ym maes eco-dwristiaeth, datblygu cymunedol, marchnata digidol a thwristiaeth yng Nghymru, a bydd pob cais yn derbyn adborth unigol. Bydd enillwyr hefyd yn cael y cyfle i fynychu seremoni wobrwyo a symposiwm sgiliau twristiaeth gyda chyflogwyr twristiaeth blaenllaw o Gymru.

Dyddiad cau'r gystadleuaeth: **Ebrill 30ain 2021.**

Mae rhagor o fanylion, gan gynnwys telerau ac amodau llawn a'r ffurflen gais, i'w gweld yma:

https://nexttourismgeneration.eu/event/ntg2021-cymraeg/

https://nexttourismgeneration.eu/event/ntgwales2021/

Dyma'r 2il Gystadleuaeth Next Tourism Generation yng Nghymru. Yr enillydd cyffredinol yn 2020 oedd Evan Davies, myfyriwr o Goleg Sir Benfro sy'n anelu at fod yn Gogydd. Tanlinellodd Evan, *"Roedd y gystadleuaeth hon yn gyfle gwych i gynorthwyo fy nhyfiant personol a hyrwyddo fy ngyrfa mewn lletygarwch. Mae'n hanfodol i ddatblygu a meithrin gyrfaoedd ym maes lletygarwch oherwydd gall dysgu crefft newydd ehangu gorwelion."*

Enillydd arall yn 2020 oedd Jenna O'Brien o Goleg Menai, Bangor, "*Mae'r gystadleuaeth hon wedi rhoi'r cyfle i mi fynegi fy angerdd a brwdfrydedd dros warchod amgylchedd, diwylliant ac iaith fy ardal, yn ogystal â fy helpu i sylweddoli pa faes twristiaeth gynaliadwy yr hoffwn ei ddilyn.*"

**Prosiect** y **Next Tourism Generation (NTG)** Next Tourism Generation Alliance (NTG) yw'r bartneriaeth a chynghrair Ewropeaidd cyntaf ar gyfer gwella'r berthynas gydweithredol a chynhyrchiol rhwng addysg a diwydiant. Bydd NTG Alliance yn darparu set o fodiwlau craidd NTG mewn sgiliau digidol, gwyrdd a chymdeithasol i weithwyr, cyflogwyr, entrepreneuriaid, athrawon, hyfforddwyr a myfyrwyr.

Mae tîm NTG Prifysgol Metropolitan Caerdydd wedi arwain ymchwil yng Nghymru, ac â 14 o bartneriaid Ewropeaidd, mae NTG Alliance wedi tystio i'r galw am gydweithredu gwell rhwng addysg, darparwyr hyfforddiant a diwydiant, a'r angen i fynd i'r afael â bylchau sgiliau digidol a chynaliadwyedd yn y diwydiant twristiaeth a lletygarwch. Mae'r uwchsgilio hwn yn bwysicach nag erioed i helpu i sicrhau adferiad cryf rhag effeithiau pandemig Covid. Nod y gystadleuaeth felly yw dod â myfyrwyr, gweithwyr proffesiynol ifanc a chynrychiolwyr blaenllaw'r diwydiant ynghyd i helpu i greu dyfodol cadarnhaol, nodi arfer gorau wrth ddysgu a dathlu llwybrau gyrfa yn y diwydiant.

Pwysleisiodd Iwan Thomas, Prif Swyddog Gweithredol PLANED, "*Er mai penllanw'r gystadleuaeth fydd symposiwm mentora arbenigol rhithiol gwych a arweinir gan y diwydiant ar gyfer cyfranogwyr yn ogystal â seremoni wobrwyo, i PLANED, mae'r gystadleuaeth yn sail i rôl y sector mewn cymunedau ledled Cymru. Ni ellir tanbrisio rhyng-ddibyniaeth busnesau o fewn y sector, a'r effaith economaidd-gymdeithasol ehangach y maent yn ei chael ar gymunedau, yn enwedig ar draws ein cymunedau gwledig ac arfordirol.*"

Amlygodd John Walsh-Heron, Cadeirydd Tourism Society Cymru, "*Mae'r gystadleuaeth hon yn cefnogi ein nodau yng Nghymru i ddod â sectorau twristiaeth ynghyd i rwydweithio a datblygu arfer gorau, cefnogi dysgu ac annog dealltwriaeth o dwristiaeth gynaliadwy. Mae gan bobl ifanc heddiw olwg unigryw ar y byd o'u cwmpas a gallant fod yn arloesol yn eu gyrfaoedd yn y dyfodol gan ddangos ffyrdd newydd y gallwn agor ein lletygarwch.*"

Gobaith y partneriaid yw y bydd y gystadleuaeth yn denu ceisiadau o bob rhan o Gymru ac yn rhoi llwyfan i bobl ifanc rannu syniadau arloesol. Pwysleisiodd Louise Dixey, Cydlynydd Datblygu Prosiect NTG ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, "*Mae'r gystadleuaeth hon yn taflu goleuni ar bobl ifanc a'u dyheadau i ddarparu gweledigaethau cadarnhaol o ddyfodol twristiaeth a lletygarwch yng Nghymru. Mae'n rhoi cyfle i ymgeiswyr arddangos eu syniadau a sgiliau sydd eu hangen ar gyfer gyrfaoedd yn y dyfodol ac ar gyfer yr adferiad rhag pandemig Covid-19.*"

***** [Diwedd] *****

**Nodiadau i'r Golygydd**

- Y prosiect **Next Tourism Generation Alliance (NTG)** yw'r bartneriaeth a chynghrair Ewropeaidd cyntaf ar gyfer gwella'r berthynas gydweithredol a chynhyrchiol rhwng addysg a diwydiant. Bydd yr NTG Alliance yn darparu set o fodiwlau Craidd NTG mewn sgiliau digidol, gwyrdd a chymdeithasol i weithwyr, cyflogwyr, entrepreneuriaid, athrawon, hyfforddwyr a myfyrwyr. Mae'r NTG yn brosiect Ewropeaidd 4 blynedd (1af Ionawr 2018 - Rhagfyr 2021). Cydlynir y prosiect gan Federturismo Confindustria, Cymdeithas Masnach Twristiaeth yr Eidal. Cyfanswm y grant yw 4 miliwn ewro. Mae'r consortiwm yn bartneriaeth amlddisgyblaethol sy'n cynnwys 14 partner: 7 Partner Diwydiant a Chynrychiolwyr y Sector Twristiaeth, 6 Prifysgol ac ATLAS - Cymdeithas Addysg ac Ymchwil Twristiaeth a Hamdden.
  https://nexttourismgeneration.eu/

- **Prifysgol Metropolitan Caerdydd**
  Mae gan Met Caerdydd bwrpas cryf - darparu addysg, ymchwil ac arloesi o ansawdd uchel ac effaith uchel sy'n canolbwyntio ar ymarfer ac a gydnabyddir yn broffesiynol mewn partneriaeth â'n myfyrwyr a diwydiant. Y Brifysgol yw'r gyntaf yng Nghymru i ennill y Siarter Busnesau Bach mawreddog a'r marc Menter Gymdeithasol i gydnabod ei gwaith gyda busnes, a'i hymrwymiad i gefnogi myfyrwyr mewn gweithgareddau menter ac entrepreneuriaeth. https://www.cardiffmet.ac.uk

- Mae **Tourism Society Cymru** yn gorff aelodaeth broffesiynol ar gyfer pobl sydd â diddordeb yn yr economi ymwelwyr yng Nghymru. Mae'r Gymdeithas yn cyfarfod i drafod, rhannu gwybodaeth, rhwydweithio a threfnu digwyddiadau.
  http://www.tourismsociety.org/index.php?area=page&id=35

- Mae **PLANED** yn sefydliad wedi'i leoli yn Sir Benfro sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac sydd â dros 30 mlynedd o brofiad darparu ac ymgysylltu. Yn gweithio mewn partneriaeth i hyrwyddo anghenion cymunedau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol ar draws yr holl sectorau cymwys, rydym yn angerddol dros gefnogi pobl, a chyflwyno syniadau sy'n newid cymunedau mewn modd cadarnhaol. <https://www.planed.org.uk/>

- Mae **Bluestone** yn falch iawn o gefnogi Cystadleuaeth NTG 2021 am yr ail flwyddyn, gan helpu i roi sylw i gynaliadwyedd i fyfyrwyr lletygarwch. Rydym yn falch o'n hachrediad *Green key* ac yn cymryd cynaliadwyedd o ddifrif. Mae ein strategaeth *Free Range Future* yn ein helpu i gynyddu ein heffaith gadarnhaol ar wastraff, ynni, bioamrywiaeth a'n cymuned leol. https://www.bluestonewales.com/

- **M-SParc -** Parc Gwyddoniaeth Menai (M-SParc) yw parc gwyddoniaeth ymroddedig cyntaf Cymru, a grëwyd i arallgyfeirio ac ysgogi economi'r rhanbarth. Mae M-SParc yn cefnogi busnesau ac arloeswyr yn y sectorau carbon isel, ynni a'r amgylchedd, TGCh a gwyddor bywyd, gan ddarparu lle a chefnogaeth iddynt ddatblygu a thyfu. http://www.m-sparc.com/

- **Am ragor o wybodaeth ac i drefnu cyfweliad, cysylltwch â:**
  Louise Dixey, Cydlynydd Datblygu Prosiect NTG, e-bost: LDixey@Cardiffmet.ac.uk
  Stuart Berry, Cydlynydd Diwylliannol PLANED, e-bost: Stuart.Berry@Planed.org.uk
  Eleanor Gardner, Swyddog Gweinyddu Prosiect a Chyfathrebu NTG ar ar gyfer ymholiadau cyfryngau Cymraeg, e-bost egardner@cardiffmet.ac.uk rhif ffon 07876793825
  Facebook : https://www.facebook.com/NTGCompetition
  Twitter: @NTGWales
  Twitter: @NTGalliance